




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Genesis 13		
1 Roedd Abram a Lot ei nai, a'u teuluoedd wedi setlo ger Bethel, yng ngwlad Canaan. Roedd Abram yn gyfoethog iawn — roedd ganddo lawer iawn o anifeiliaid ac arian ac aur.		
2 Roedd gan Lot ddefaid a gwartheg a phebyll hefyd.		
3 Doedd dim digon o borfa iddyn nhw fyw gyda'i gilydd, am fod gan y ddau gymaint o anifeiliaid.		

- 
- 4 Doedd na ddim digon o ddŵr i'r holl anifeiliaid chwaith.



- 
- 5 Ac roedd gweision Abram a gweision Lot yn cweryla drwy'r adeg.




- 
- 6 Felly dyma Abram yn dweud wrth Lot, "Da ti, gad i ni a'n gweision beidio ffræo! Dŷn ni'n perthyn i'r un teulu! Edrych, mae'r wlad i gyd o dy flaen di. Beth am i ni wahanu. Dewis di ble rwy'ti am fynd i fyw, a gwna i fynd i'r cyfeiriad arall."




- 
- 7 Edrychodd Lot o'i gwmpas, a gwelodd fod dyffryn lorddonen i fyny at Soar yn dir da gyda digon o ddŵr. Roedd yn ffrwythlon fel gardd yr ARGLWYDD yn Eden.



- 
- 8 Ond, roedd pobl yr ardal yn ddrwg. Roedd trigolion trefi Sodom a Gomorra yn arbennig o ddrwg. Ond roedd y tir yn ffrwythlon.



- 
- 9 Aeth Lot i fyw wrth y trefi yn y dyffryn, a gwersylla wrth ymyl Sodom. Roedd pobl Sodom yn ddrwg iawn, ac yn pechu'n fawr yn erbyn yr ARGLWYDD.



- 
- 10 Ar ôl i Lot ei adael, dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Abram, "Edrych o dy gwmpas i bob cyfeiriad. Dw i'n mynd i roi'r wlad yma i gyd i ti a dy ddisgynyddion, am byth.



- 
- 11 Bydd gen ti gymaint o ddisgynyddion fydd dim posib eu cyfri nhw. Byddan nhw fel llwch ar y ddaear! Dos i deithio o gwmpas y wlad. Bydda i'n rhoi'r cwbl i ti."



- 
- 12 Symudodd Abram i ardal o'r enw Hebron.



- 
- 13 Setlodd i lawr wrth goed derw Mamre, oedd yn fan addoli yn Hebron.



- 
- 14 A dyma fe'n codi allor i'r  
ARGLWYDD yno.



- 
- 15 Cyfieithwyd gan  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed  
by FreeBibleImages for free download under the terms of the  
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---